J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 1

Gweithredu Polisïau

Sut mae sefydliadau yng Nghymru'n methu â gweithredu eu polisïau eu hunain ar wybodaeth hygyrch

RNIB Cymru

yn cefnogi pobl ddall ac â golwg rhannol

supporting blind and partially sighted people

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 2

Cydnabyddiaeth

Mae Gweithredu Polisïau - Sut mae sefydliadau yng Nghymru'n methu â gweithredu eu polisïau eu hunain ar wybodaeth hygyrch yn brosiect RNIB Cymru a gefnogir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd help i ni gyda'r prosiect hwn, gwerthfawrogir eich help yn fawr iawn. Hoffem ddiolch i'r Pollen Shop mewn modd neilltuol am eu cefnogaeth wrth baratoi'r adroddiad hwn.

Cyhoeddir gan RNIB Cymru

Cedwir pob hawl.

I gael mwy o wybodaeth am waith RNIB Cymru cysylltwch â 029 2045 0440 neu ewch i www.rnib.org.uk/cymru

Rhif elusen 226227

The Pollen Shop
www.thepollenshop.co.uk

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 3

Cynnwys

Cydnabyddiaeth 2

Cynnwys 3

Rhagair 4

Deddfwriaeth wrthwahaniaethu 9

Methodoleg 13

Canlyniadau 14

Hawliau iaith a phobl â nam ar eu golwg 18

Argymhellion 19

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 4

Rhagair

Mae hi'n galonogol i RNIB Cymru weld bod 96% o'r sefydliadau a arolygwyd yng Nghymru yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gyflwyno gwybodaeth mewn fformatau hygyrch yn unol â Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Ar yr un pryd mae hi'n siomedig mai 3% yn unig o'r un sefydliadau sy'n derbyn ceisiadau rheolaidd am wybodaeth mewn fformatau hygyrch. Gan fod dros 100,000 o bobl â nam ar eu golwg yng Nghymru mae angen sylweddol heb ei ddiwallu. Mae hi'n eglur nad yw sefydliadau yn estyn allan at bobl sydd â nam ar eu golwg mewn ffordd sy'n eu hannog nhw i ofyn am wybodaeth hygyrch.

Mae buddion perthynas dda rhwng pobl sydd â nam ar eu golwg a'r sefydliadau sy'n effeithio ar eu bywydau yn sylweddol. Mae colli apwyntiad mewn ysbyty oherwydd llythyr anhygyrch yn broblem fawr i'r unigolyn ond hefyd mae'n wastraff ar adnoddau prin y GIG.

Y cam nesaf yw trawsffurfio ymwybyddiaeth o hawliau pobl sydd â nam ar eu golwg i weithredu ar draws Cymru.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 5

Crynodeb gweithredol

Trosolwg

Er bod nifer o sefydliadau wedi mabwysiadu polisïau ar wybodaeth hygyrch, nid yw'r rhan fwyaf o bobl sydd â nam ar eu golwg yng Nghymru yn derbyn gwybodaeth mewn fformatau hygyrch sylfaenol. Mae Gweithredu Polisïau yn adroddiad sy'n amlygu'r ffaith bwysig y dylai pobl dderbyn gwybodaeth hygyrch yn hytrach na sefydliadau'n llunio polisïau 'ticio'r blychau' yn unig.

Mae methiant sefydliadau i sicrhau bod pobl sydd â nam ar eu golwg yn derbyn gohebiaeth hygyrch yn arwyddocaol i'r sefydliad a'r unigolyn fel ei gilydd. I'r sefydliad mae'n golygu nad ydyw yn cyrraedd lleiafrif arwyddocaol o'r boblogaeth a hwyrach yn methu ag ateb gofynion deddfwriaeth wrthwahaniaethu. I'r unigolyn â phroblemau golwg bydd yn golygu nad oes perthynas weithredol â'r sefydliadau sydd o'r pwys mwyaf iddo.

> 'Fel pawb arall rwy'n derbyn llawer o lythyrau ond oherwydd nad yw'r ysbyty yn anfon manylion apwyntiad ataf mewn print bras gallaf fethu â gweld bod y llythyr yn bwysig.'
>
> **Mr X Caerdydd**

> 'Yn amlwg gallaf ofyn i rywun ddarllen fy llythyrau ond byddai'n well gen i gadw rhai llythyrau'n breifat.
>
> **Ms Y Caerdydd**

Mae ymwybyddiaeth dda o ddeddfwriaeth wrthwahaniaethu gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru ac mae polisïau gwybodaeth hygyrch gan lawer ohonynt. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn dangos bod gormod o'r sefydliadau hyn wedi methu â gweithredu'r polisïau hyn ac o'r herwydd wedi methu â chynnig gwybodaeth mewn fformatau hygyrch.

Cefndir

Mae RNIB Cymru yn amcangyfrif bod 100,000 o bobl yng Nghymru â phroblemau golwg ac mae 20,000 ohonynt wedi'u cofrestru yn rhannol ddall.

Diogelir pobl anabl, gan gynnwys rhai sydd â nam ar eu golwg, gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae'n ofynnol yn ôl y Ddeddf hon fod sefydliadau'n gwneud 'addasiadau rhesymol' i sicrhau nad yw pobl anabl yn cael eu trin yn annheg. Mewn ateb i hyn datblygodd nifer o gyrff sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol bolisïau i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl ym maes cyfathrebu.

Yn ychwanegol at Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 daw pobl sydd â nam ar eu golwg o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Rhoddodd yr ail Ddeddf hon set newydd o ddyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 6

Crynodeb gweithredol

O Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymddiriedolaethau'r GIG mae'n rhaid i bob awdurdod cyhoeddus fabwysiadu agwedd ragweithiol i ddod â gwahaniaethu i ben. Mae rhan o'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys gweithio gyda phobl anabl i greu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd. Mae'r cynllun hwn yn nodi beth mae sefydliad yn ei wneud i ddod â gwahaniaethu i ben ac fel arfer mae adran yno ar gyfer gwneud gwybodaeth yn hygyrch.

Methodoleg

Cysylltodd RNIB â sampl gynrychioliadol o sefydliadau i weld a oedd ganddynt bolisi ar wybodaeth hygyrch ac a oeddent yn gweithredu ar hyn. Gofynnwyd i ymatebwyr gyfrannu ar y ffôn neu lunio holiadur ysgrifenedig. Cysylltwyd â chyfanswm o naw deg naw o sefydliadau rhanbarthol a lleol ar draws Cymru.

Hefyd fe drefnon ni nifer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus i gael gwybodaeth fanylach.

Canlyniadau

- Roedd 96% o sefydliadau'n ymwybodol bod ganddynt gyfrifoldeb i gynnig gwybodaeth mewn fformatau hygyrch yn unol â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.
- Dywedodd 3% o sefydliadau eu bod yn aml yn derbyn ceisiadau am wybodaeth mewn fformatau hygyrch.
- Yn anaml mae 36% o sefydliadau yn derbyn ceisiadau am wybodaeth mewn fformatau hygyrch.
- Ni dderbyniodd 61% o sefydliadau unrhyw geisiadau am wybodaeth mewn fformatau hygyrch.
- Roedd 42% o sefydliadau yn methu â chynnig gwybodaeth mewn Braille.
- Roedd 57% o sefydliadau yn methu â chynnig gwybodaeth mewn fformat tâp sain.
- Roedd 54 % o sefydliadau yn methu â chynnig gohebiaeth bersonol mewn print bras yn y Saesneg.
- Roedd 60% o sefydliadau yn methu â chynnig gwybodaeth gyffredinol mewn print bras yn y Gymraeg.

Gyda'i gilydd mae ein canlyniadau'n dangos nad oes perthynas weithredol rhwng y rhan fwyaf o sefydliadau yng Nghymru â'r miloedd o bobl yng Nghymru sydd angen gwybodaeth mewn fformatau hygyrch.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 7

Crynodeb gweithredol

Hawliau iaith a phobl â nam ar eu golwg

Mae ein canlyniadau wedi dangos bod pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg ac â nam ar eu golwg yn cael eu hatal yn aml rhag defnyddio'r iaith o'u dewis mewn fformatau sy'n hygyrch.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn cynnig rywfaint o ddiogelwch i hawliau siaradwyr Cymraeg. Mae deddfwriaeth bellach ar y gweill a fydd yn cynyddu'r dyletswyddau ar bob sefydliad i drin yr iaith Gymraeg yn gyfartal. Fodd bynnag, er mwyn i siaradwyr Cymraeg â nam ar eu golwg fwynhau'r un diogelwch ieithyddol â siaradwyr eraill y Gymraeg, mae'n rhaid diogelu eu hawl i dderbyn gwybodaeth mewn fformatau hygyrch.

Argymhellion dewisol

Pob sefydliad

- Dylai pob sefydliad ddiwallu eu dyletswyddau dan y Deddfau Gwahaniaethu ar sail Anabledd a gwneud yr 'addasiad rhesymol' i sicrhau bod eu gwybodaeth yn hygyrch.
- I sicrhau cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 dylai fod polisi ysgrifenedig gan bob sefydliad ar wybodaeth hygyrch
- Dylid hyrwyddo argaeledd gwybodaeth hygyrch yn eang

Awdurdodau cyhoeddus

- Dylai awdurdodau cyhoeddus nodi yn eu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd eu sefyllfa ynghylch gwybodaeth hygyrch.
- Dylai awdurdodau cyhoeddus lunio polisi ar wybodaeth hygyrch wedi'i gysylltu â'u Cynllun Cydraddoldeb Anabledd. Gall hyn fod yn rhan o gynllun gweithredu.
- Fel rhan o'r broses casglu tystiolaeth, fel y nodir yng Nghodau Ymarfer y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd, dylai awdurdodau cyhoeddus fonitro'r defnydd o'r fformatau hygyrch a lle mae'r defnydd ohonynt yn isel dylid cyflwyno mesurau i sicrhau bod pobl anabl yn ymwybodol o argaeledd gwybodaeth hygyrch.
- Dylai awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod y strwythurau a'r cyllidebau angenrheidiol yn eu lle i reoli hyrwyddo a gweithredu fformatau hygyrch.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Sicrhau bod hawliau siaradwyr Cymraeg â phroblemau golwg yn cael eu diogelu mewn unrhyw ddeddfwriaeth i ddiogelu'r Gymraeg.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 8

Crynodeb gweithredol

- Cynnwys darparu gwybodaeth hygyrch yn yr iaith Gymraeg yng nghylch gwaith y 'Comisiynydd Iaith' newydd.
- Ystyried hawliau pobl sydd â nam ar eu golwg wrth gynllunio ffyrdd o gyfathrebu â'r Cyhoedd yng Nghymru.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 9

Deddfwriaeth wrthwahaniaethu

Trosolwg yw'r bennod ddilynol ar y sefyllfa gyfreithiol ar wybodaeth hygyrch. Ni fwriadwyd disodli cyngor cyfreithiol ond i gynnig esboniad cyffredinol ar y modd mae deddfwriaeth wrthwahaniaethu'n perthyn i wybodaeth hygyrch.

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995

Mae'n ddyletswydd ar y rhan helaethaf o sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, fel y nodir yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, i wneud 'addasiadau rhesymol' i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl.

Byddai'r rhan fwyaf o sefydliadau yn ymdrin yn annheg ag unigolyn anabl pe na fyddent yn gwneud ' addasiadau rhesymol' i wneud gwybodaeth yn hygyrch i rywun â nam ar ei olwg pan fo'r wybodaeth ar gael i eraill. Gellir gwneud hyn trwy ddarparu 'fformatau hygyrch' fel fformatau Braille, print bras, electronig a chlywedol.

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005

Yn ychwanegol at Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 diogelir pobl sydd â nam ar eu golwg nawr gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Mae hyn wedi gosod set newydd o ddyletswyddau rhagweithiol ar awdurdodau cyhoeddus i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl. O Lywodraeth Cynulliad Cymru i Gynghorau Iechyd Cymunedol mae'n rhaid i bob awdurdod unigol fabwysiadu agwedd ragweithiol i ddod â gwahaniaethu i ben.

Dywed y Ddeddf fod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus dalu sylw dyledus wrth weithredu eu swyddogaethau ynghylch;

(a) yr angen i ddileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf;

(c) yr angen i hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd rhwng unigolion anabl ac unigolion eraill;

(d) yr angen i gymryd camau i ystyried anableddau unigolion anabl, hyd yn oed lle mae hynny'n golygu ymdrin ag unigolion anabl mewn dull mwy ffafriol nag unigolion eraill;

(f) yr angen i annog unigolion anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

Mae rhwymedigaeth fel y cyfryw ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd rhwng pobl anabl ac unigolion eraill. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo gwybodaeth mewn fformatau hygyrch.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 10

Deddfwriaeth wrthwahaniaethu

O Ragfyr 2006 mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus ddangos eu bod wedi rhagweld a chymryd camau i symud rhwystrau sy'n achosi gwahaniaethu. Gelwir hyn yn Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd. Rhwymedigaeth ddisgwylgar sy'n golygu na all awdurdodau cyhoeddus bellach ddefnyddio'r esgus na chawson nhw geisiadau am fformatau hygyrch yw'r ddyletswydd. Os na dderbyniwyd unrhyw geisiadau mae'n rhaid iddynt nhw ystyried pam nad ydyn nhw'n derbyn unrhyw geisiadau a beth y gallant ei wneud i estyn allan at y bobl y maent yn eu gwasanaethu. Gallai hyn gynnwys:

- Nodi bylchau yn hawlio gwybodaeth gan bobl anabl gan gynnwys monitro ceisiadau am fformatau amgen.
- Newid ffurf ac arddull adroddiadau i'w gwneud yn fwy hygyrch i bobl anabl. Gallai hyn gynnwys sicrhau bod dogfennau'n cydymffurfio â chanllawiau Print Clir RNIB
- Trefnu cytundeb â chyflenwr i sicrhau y gellir embossio gohebiaeth mewn Braille.
- Darparu hyfforddiant ar gyfer staff fel y gallan nhw gyfathrebu'n fwy effeithiol â phobl anabl.

Dyma enghraifft a ddefnyddiwyd yng Nghod Ymarfer Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd

> "Dylai adran o'r Llywodraeth sy'n bwriadu cael system TG newydd sicrhau bod ei chynllun gweithredu yn addas ar gyfer ei defnyddio gan weithwyr anabl. Dylai'r cynllun gweithredu hefyd nodi'r dull y bydd yn datblygu'r fanyleb fel y bo'r system yn darparu'r cynnyrch cywir ar gyfer cwsmeriaid anabl. Gall hyn gynnwys dull o adnabod cwsmeriaid a'u gofynion, a allai, er enghraifft, arwain at fod yn gallu argraffu hysbysiadau a llythyrau mewn fformatau hygyrch ar gyfer pobl â nam ar eu golwg.."

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd yn gymesur ac mae'r egwyddor o 'addasiadau rhesymol' a ddiffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb Anabledd 1995 yn parhau mewn grym. Fodd bynnag dylid nodi ei bod hi'n rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i ddiwallu'r ddyletswydd hyd yn oed os bydd yn ymdrin yn fwy ffafriol â phobl anabl na grwpiau eraill trwy wneud hynny.

[1] Y Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd: Cod Ymarfer Statudol 2005

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 11

Cynllun Cydraddoldeb Anabledd

Fel rhan o'i rhwymedigaethau dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Anabledd. Mae hwn yn amlinellu'r camau a wneir gan awdurdod i ddod â gwahaniaethu i ben.

Mae angen i'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd ddangos ymhlith pethau eraill:

- Y rhan a fu gan bobl anabl yn llunio'r cynllun a'r cynllun gweithredu cysylltiol. Mae'n debyg y dylai hyn gynnwys pobl â nam ar y golwg.
- Sut yr asesir effaith gweithgareddau cyfredol ac arfaethedig ar bobl anabl. Eto dylai hyn gynnwys asesiad o anghenion pobl sydd angen fformatau amgen.

Mae'n debyg y bydd llawer o'r awdurdodau cyhoeddus wedi plethu eu polisi gwybodaeth hygyrch bresennol i mewn i'w Cynllun Cydraddoldeb Anabledd neu mewn rhai achosion Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n cyfuno eu dyletswyddau eraill ar gydraddoldeb. Lle mae hyn wedi digwydd bydd sefydliadau wedi datgan yn glir eu hymrwymiad strategol i sicrhau bod gohebiaeth yn hygyrch.

Busnes a gwybodaeth hygyrch

O dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, mae'n rhaid i fusnesau wneud ' addasiadau rhesymol' fel nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn cwsmeriaid neu weithwyr anabl. Gallai addasiad rhesymol gynnwys cyhoeddi gohebiaeth mewn print bras, gwybodaeth am gynnyrch mewn Braille neu amserlenni ar dâp.

Cynlluniwyd y gyfraith fel y bydd yn rhaid i gwmnïau wneud pethau yn unig os byddant yn rhesymol. Yn ymarferol golyga hyn fod disgwyl i gwmnïau mwy o faint gael polisïau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle i ymdrin â cheisiadau am ystod o fformatau hygyrch.

Mae angen i gwmnïau bach a chanolig hefyd roi ystyriaeth ddifrifol i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Er enghraifft byddai'n rhesymol i unigolyn sydd â nam ar ei olwg ofyn am lythyr print bras i gadarnhau archebu tocynnau neu i fwyty gael bwydlen mewn Braille.

Dylai busnesau gofio bod yn rhaid iddynt gymryd camau rhesymol neu gallai unigolyn sydd â nam ar ei olwg gymryd camau cyfreithiol yn eu herbyn am eu trin yn annheg. Y gwirionedd yw y dylai busnesau o bob maint roi ystyriaeth ddifrifol i hyn ac ystyried sut y gall unigolyn sydd â nam ar ei olwg gael mynediad i'r wybodaeth a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 12

Wrth gwrs mae hefyd o fudd masnachol i'r busnesau adeiladu perthynas â phobl sydd â nam ar eu golwg. Mae busnesau nad ydynt yn adeiladu perthynas a darparu gwasanaethau i bobl sydd â nam ar eu golwg yn mynd i weld eisiau cwsmeriaid a gweithwyr posibl.

Pobl â hawl i wybodaeth hygyrch yng Nghymru

Mae'r diffiniad o berson anabl a ddefnyddir yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 yn cwmpasu ystod eang o bobl; gan gynnwys canran uchel o bobl hŷn ac eraill nad ydynt o angenrheidrwydd ym meddwl amdanynt eu hunain fel pobl anabl, rhai sy'n ddall neu â nam ar eu golwg.

Mae nifer o amcangyfrifon gwahanol am y nifer o bobl anabl yng Nghymru. Mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn amcangyfrif bod un o bob pump o bobl yn dod o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005.

Amcangyfrifwyd gan RNIB fod problemau golwg gan 100,000 o bobl yng Nghymru ac mae 20,000 ohonynt wedi'u cofrestru fel pobl ddall neu â golwg rhannol. Ar gyfartaledd mae 2,500 o bobl â phroblemau golwg ym mhob un o etholaethau'r Cynulliad.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 13

Methodoleg

Holiadur

Cysylltodd RNIB Cymru â sampl cynrychioliadol o fusnesau, sefydliadau'r sector gwirfoddol ac awdurdodau cyhoeddus. Ar y cyfan gwnaed hyn dros y ffôn.

Cysylltwyd â chyfanswm o 99 o sefydliadau ar draws Cymru. Roedd ardaloedd trefol a gwledig Cymraeg eu hiaith yn rhan o'r sampl. Yr unig sefydliadau y cysyllton ni â nhw oedd y rhai y gallem yn rhesymol dybio bod polisi ar wybodaeth hygyrch ysgrifenedig ffurfiol ganddynt. Nid oedd ein sampl yn cynnwys Mentrau Bach a Chanolig neu sefydliadau cymunedol.

Wrth gysylltu gwnaed cais i siarad â chynrychiolydd a oedd yn ymwybodol o'r ddarpariaeth ar wybodaeth hygyrch i bobl sydd â nam ar eu golwg yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn trwy ddefnyddio holiadur safonol a rhoddwyd y dewis i'r rhai a gyfwelwyd o ateb y cwestiynau'n gyfrinachol. Dewisodd nifer o sefydliadau dderbyn holiadur a'i ddychwelyd ag atebion ysgrifenedig.

Rhyddid gwybodaeth

Yn ychwanegol at yr holiadur anfonon ni nifer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth at awdurdodau i adnabod:

- Cyllidebau ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch ym mhob un o'r 3 blynedd diwethaf
- Mecanweithiau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus i gofnodi'r nifer o geisiadau am fformatau hygyrch
- Sut mae argaeledd gwybodaeth am fformatau hygyrch yn cael ei gyflwyno i bobl a ddaw o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 yn dilyn y gweithredu a nodir yn eu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 14

Canlyniadau

Roedd 96% o sefydliadau'n ymwybodol bod ganddynt gyfrifoldeb i gyhoeddi gwybodaeth mewn fformatau hygyrch dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Mae'r ystadegyn nodedig hwn yn amlygu bod pob sefydliad bron yn ymwybodol o'u hymrwymiad i ddarparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch. Fel y dangoswn yn ddiweddarach yn yr adran hon mae hefyd yn nodi gwahaniaeth brawychus rhwng ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a'i gweithredu fel y bydd pobl sydd â nam ar eu golwg yn cael y fformatau hygyrch sydd eu hangen arnynt.

Y newyddion da yw fod lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae hefyd yn golygu nad oes esgus bellach gan sefydliadau yng Nghymru nad oeddent yn ymwybodol o'u dyletswydd i ddarparu gwybodaeth hygyrch.

Dylid canmol sefydliadau am sicrhau bod lefel uchel o wybodaeth o'r Ddeddf a sut y mae'n perthnasu â gwybodaeth hygyrch. Mae hi bron yn sicr mai canlyniad yw hyn i waith caled y sefydliadau anabledd a'r Comisiwn Hawliau Anabledd (y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb nawr) yn codi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth.

Mae Polisi Gwybodaeth Hygyrch ysgrifenedig ffurfiol gan 39% o sefydliadau yng Nghymru

Gweithredu Polisi Gwybodaeth Hygyrch ysgrifenedig ffurfiol yw'r ffordd orau o ddigon i sicrhau bod sefydliad yn diwallu eu cyfrifoldebau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae hefyd yn ffordd syml o warantu bod pobl sydd â nam ar eu golwg yn derbyn gwasanaeth da fel cwsmeriaid.

Mae polisi ffurfiol yn egluro i bobl y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliadau beth y gallan nhw ei ddisgwyl gan y sefydliad yn nhermau gwybodaeth hygyrch. Dylai sefydliadau sydd dan reolaeth y Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd gael polisi gwybodaeth hygyrch ysgrifenedig ffurfiol a lle mae hynny'n briodol dylai hyn gael ei gorffori mewn Cynllun Cydraddoldeb Anabledd.

Mae Polisi Gwybodaeth Hygyrch 'anffurfiol' gan 19% o sefydliadau

Os oes polisi gwybodaeth hygyrch 'anffurfiol' gan sefydliad mae hynny'n golygu fel arfer fod y sefydliad wedi penderfynu ar lefel ddamcaniaethol i baratoi gwybodaeth mewn fformatau hygyrch os gofynnir am hynny ond nid oes unrhyw gamau ymarferol wedi'u cymryd i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Canlyniad polisi anffurfiol yw y bydd argaeledd gwybodaeth hygyrch yn ysbeidiol ar y gorau. Yn y rhan fwyaf o achosion canlyniad hyn yw na fydd perthynas weithredol â phobl sydd â nam ar eu golwg gan sefydliad.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 15

Nid yw polisïau anffurfiol yn ymarferol. Mae'n amhosibl rhoi gwybodaeth amdanynt ar draws sefydliad mawr, nid oes hyfforddiant yn digwydd i'w cefnogi ac ni ellir eu monitro na'u diweddaru'n hawdd.

Pam mae polisi gwybodaeth ffurfiol yn bwysig

Mae polisi gwybodaeth hygyrch ysgrifenedig ffurfiol yn hanfodol ar gyfer unrhyw sefydliad i ddarparu gwasanaeth digonol i bobl sydd â nam ar eu golwg. Y rheswm dros hyn yw bod y polisi yn dangos i sefydliad sut i drafod ceisiadau am wybodaeth, gosod prosesau cyllidol clir a diffinio gweithdrefn fonitro. Mae polisi ysgrifenedig ffurfiol hefyd yn arwydd cyhoeddus a chlir bod y sefydliad yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i anghenion pobl â nam ar y golwg.

Bydd sefydliadau heb bolisi ffurfiol yn ei chael yn anodd bodloni eu dyletswyddau fel y nodir yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Er enghraifft, pe byddai sefydliad yn dweud y byddai'n cyflawni ceisiadau am wybodaeth hygyrch ar ôl eu derbyn, mae'n annhebygol y byddai'n bodloni ei ddyletswyddau neu'n darparu gofal da i'r cwsmer. Y rheswm dros hyn yw os nad oes strwythur yn ei le ni fyddant yn gallu darparu'r wybodaeth hygyrch mewn amser rhesymol. Yr allwedd i ddarparu gwybodaeth hygyrch yw'r gallu i gyflwyno'r wybodaeth mewn amser rhesymol yn dilyn cais.

Yn naturiol bydd polisïau a phrosesau gwahanol iawn i'w gilydd gan wahanol fathau o sefydliadau. Efallai y bydd angen dogfen gyfansawdd ar sefydliad sy'n derbyn cannoedd ar filoedd o gysylltiadau â chwsmeriaid er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cynnig gwasanaeth da i'w cwsmeriaid. Ni fydd hyn yn briodol i fwyty teuluol lle mai'r unig beth sydd ei angen arnynt yw gwneud yn siŵr bod eu staff yn ymwybodol o'r hyn y dylent ei wneud os bydd rhywun yn gofyn am fwydlen mewn print bras.

Dylai awdurdodau cyhoeddus gysylltu eu polisi gwybodaeth hygyrch â'u Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd.

Dywedodd 3% o sefydliadau iddynt dderbyn ceisiadau'n aml am wybodaeth mewn fformatau hygyrch.

Dywedodd 36% mai anaml y derbynient geisiadau.

Dywedodd 61% nad oedden nhw byth yn derbyn ceisiadau am wybodaeth mewn fformatau hygyrch.

Mae'r ystadegau hyn yn arwydd pryderus nad oes perthynas weithredol gan y mwyafrif o sefydliadau yng Nghymru â'r miloedd o bobl yng Nghymru sydd angen gwybodaeth mewn fformatau hygyrch. Mae hyn hefyd yn dangos fod hyrwyddo ac argaeledd fformatau hygyrch yn rhyfeddol o isel.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 16

Canlyniadau

Ar ôl dadansoddi'r data o'n holiadur cyntaf penderfynon ni wneud nifer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth i awdurdodau cyhoeddus Cymru. Gwnaethom hyn er mwyn cael gwell dealltwriaeth pam roedd gwrthgyferbyniad rhwng ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a gweithredu polisi a fyddai'n annog pobl i ofyn am wybodaeth mewn fformatau hygyrch.

Gofynnon ni am wybodaeth am y gyllideb, mecanweithiau ar gyfer cofnodi ceisiadau am wybodaeth hygyrch a'r ffordd yr hyrwyddir gwybodaeth hygyrch. Ar y cyfan roedd yr atebion yn debyg. Nid oedd cyllideb ganolog gan y rhan fwyaf o awdurdodau ar gyfer cyhoeddi fformatau hygyrch a phenderfyniad rheolwyr cyllidebau unigol oedd trefnu hynny. Fodd bynnag roedd system ganolog ar gyfer cofnodi ceisiadau am fformatau hygyrch. Pan roddwyd ffigurau roedd y rhain yn isel gydag ychydig iawn o ddogfennau'n cael eu cyhoeddi mewn fformatau hygyrch dros flwyddyn. Mae'n ymddangos mai'r eithriad i hyn yw Addysg Uwch sy'n rheoli diwallu anghenion sydd â nam ar eu golwg yn strategol. O ganlyniad maen nhw'n derbyn llawer o geisiadau am wybodaeth mewn fformatau hygyrch ac mae gweithdrefn bendant ar gyfer ymdrin â nhw.

Hefyd dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod argaeledd fformatau hygyrch yn cael ei 'hyrwyddo' trwy gynnwys paragraff safonol ar ddogfennau cyhoeddus. Yn aml daliwyd pobl sydd â nam ar eu golwg mewn cylch o dybio nad oes fformatau ar gael gan na hyrwyddir nhw. Felly mae cynnwys y paragraff hwn yn gam cyntaf da. Fodd bynnag mae'n rhaid cael cymeriad cryf i ofyn drosodd a thro am wybodaeth pan wneir i'r unigolyn sy'n gofyn deimlo ei fod yn gofyn am rywbeth allan o'r cyffredin. Mae llawer o bobl hŷn sydd â nam ar eu golwg hefyd yn amharod i ofyn am wybodaeth mewn fformatau hygyrch os nad anogir nhw i wneud hynny. Mae'r cyfrifoldeb ar sefydliadau i wir hyrwyddo argaeledd fformatau hygyrch. Nid cael paragraff safonol ar flaen dogfen ddylai fod yr unig ffordd o wneud hyn. Bydd yn rhaid i sefydliadau edrych ar ffyrdd newydd o estyn allan ac annog pobl i fagu gwir berthynas â nhw.

Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd

Mae awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn derbyn ceisiadau am fformatau amgen ac yn methu â gweithredu yn amlwg yn methu â bodloni eu Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd.

O dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd dylid cofio y gall y Comisiwn dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol gymryd camau cyfreithiol yn erbyn awdurdodau cyhoeddus sydd wedi methu â gweithredu eu cyfrifoldebau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd trwy gyhoeddi rhybuddion cydymffurfio.

Ynghyd â phobl anabl unigol gallant herio methiant awdurdod cyhoeddus i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol trwy ofyn am adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 17

Nid oedd 29% o sefydliadau yn gallu darparu gwybodaeth print bras yn Saesneg.

Nid oedd 42% o sefydliadau yn gallu darparu gwybodaeth mewn Braille

Nid oedd 57% o sefydliadau'n gallu darparu gwybodaeth ar ffurf tâp sain.

Er bod bron pob sefydliad yn ymwybodol bod cyfrifoldeb cyfreithiol arnynt i fod yn gallu cyhoeddi gwybodaeth yn hygyrch roedd nifer arwyddocaol ohonynt yn methu gwneud hynny. Dylid cofio hefyd y gallai'r wybodaeth y gofynnir amdani fod yn allweddol i'r ffordd y mae pobl sydd â nam ar eu golwg yn byw eu bywydau.

Y ffurf hygyrch hawsaf i'w chynhyrchu yw print bras. Dyna hefyd y ffurf sydd fwyaf defnyddiol ar gyfer y mwyafrif o bobl sydd â nam ar eu golwg. Mae methu â darparu gwybodaeth yn y ffurf hygyrch sylfaenol hon yn creu rhwystr hollol ddianghenraid i adeiladu perthynas â rhan arwyddocaol o'r boblogaeth. Er mai rhan lai o'r boblogaeth sy'n defnyddio Braille maent yr un mor bwysig i'r bobl sy'n eu defnyddio.

Nid oedd 60% o sefydliadau'n gallu darparu gwybodaeth mewn print bras yn Gymraeg

Nid yw cynhyrchu gwybodaeth yn y Gymraeg mewn print bras yn anos nag yn y Saesneg. Fodd bynnag mae siaradwyr Cymraeg yn llawer llai tebygol o fod yn gallu cael dogfen print bras yn eu dewis iaith. Mae'n ymddangos bod nifer o sefydliadau'n methu ag amgyffred â'r syniad y gall rhywun sydd â nam ar ei olwg fod yn dymuno cael y wybodaeth yn y Gymraeg. Dylai siaradwyr Cymraeg sydd â nam ar eu golwg ble bynnag maent yn byw yng Nghymru gael yr un hawl i wybodaeth yn eu dewis iaith a ffurf.

Nid oedd 54 % o sefydliadau'n gallu darparu gohebiaeth bersonol mewn print bras.

Fel rhan o'n holiadur gofynnon ni a fedrai sefydliadau lunio gohebiaeth bersonol mewn print bras. Mae gohebiaeth bersonol yn cwmpasu llythyrau i unigolion ynghyd â chardiau apwyntiad meddygol neu adroddiadau ysgol. Y math hwn o ohebiaeth yn aml iawn yw'r mwyaf defnyddiol ac mae methu â'i ddarparu yn gallu arwain at fethiant llwyr ar gyfathrebu rhwng unigolyn a sefydliad. Mae hyn yn codi cwestiynau am ddiogelwch ariannol, argaeledd gwybodaeth bersonol iawn i drydydd parti a llunio penderfyniadau deallus.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 18

Hawliau iaith a phobl sydd â nam ar eu golwg

Mae Arolwg Defnyddio'r Iaith Gymraeg 2004 yn dangos bod 21.7% o boblogaeth Cymru yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r duedd ar i fyny hon yn debygol o barhau fel y bydd mwy a mwy o blant yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dros y ddau ddegawd diwethaf mae siaradwyr Cymraeg wedi mynnu eu hawl i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn deddfu y dylid ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r Deddfau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar awdurdodau cyhoeddus, fodd bynnag mae'n fwyfwy tebygol y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i ddiogelu hawliau siaradwyr Cymraeg yn eu cysylltiadau â busnesau a'r sector gwirfoddol. Dylai'r angen hwn i bobl sydd â nam ar eu golwg gael ei ddiogelu yn y ffordd y datblygir a gweithredir deddfwriaeth.

Mae pobl â nam ar eu golwg mor debygol ag unrhyw un arall o fod yn siaradwr Cymraeg. Er mwyn i'r grŵp hwn o bobl fwynhau'r un diogelwch ieithyddol nid yn unig bydd angen iddynt gael mynediad i wybodaeth yn Gymraeg ond bydd angen i hyn fod yn hygyrch iddynt.

Mae'n bwysig cofio hefyd y gall darparu gwybodaeth yn y Gymraeg wella canlyniadau ar gyfer sefydliadau ac unigolion. Er enghraifft efallai y bydd pobl hŷn â nam ar y golwg a gafwyd deimlo'n fwy cyfforddus i dderbyn gwybodaeth bersonol yn eu hiaith gyntaf. Gall hyn olygu eu bod yn fwy tebygol o ymateb yn gadarnhaol ac adeiladu perthynas weithredol â sefydliad.

Gall rhai siaradwyr Cymraeg, er enghraifft y rhai sy'n dioddef o ddementia, golli sgiliau yn yr iaith Saesneg tua'r un amser ag y maent yn colli eu golwg. Gall darparu gwybodaeth yn yr iaith Gymraeg eu helpu i gadw rheolaeth ar eu bywydau. Gall grwpiau eraill o siaradwyr Cymraeg anabl fel pobl ag Affasia, pobl ag anableddau dysgu, gael budd sylweddol o gael gwybodaeth yn yr iaith Gymraeg mewn fformatau hygyrch.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 19

Argymhellion

Pob sefydliad

- Dylai pob sefydliad fodloni eu dyletswyddau dan y Deddfau Gwahaniaethu ar sail Anabledd a gwneud yr ‘addasiad rhesymol’ i wneud gwybodaeth yn hygyrch.
- I sicrhau cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 dylai pob sefydliad gael polisi ysgrifenedig ar wybodaeth hygyrch.
- Dylid hyrwyddo argaeledd gwybodaeth hygyrch yn eang.

Y Gymuned Fusnes

- Dylai busnesau edrych ar eu strwythurau marchnata i sicrhau eu bod yn cynnwys pobl â nam ar eu golwg fel cwsmeriaid.
- Dylai busnesau ddatblygu polisi gwybodaeth hygyrch ffurfiol wedi’i seilio ar eu model busnes. Dylid cyhoeddi hwn a’i weithredu.

Awdurdodau cyhoeddus

- Dylai awdurdodau cyhoeddus nodi yn eu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd eu sefyllfa ynghylch gwybodaeth hygyrch.
- Dylai awdurdodau cyhoeddus lunio polisi gwybodaeth hygyrch wedi’i gysylltu â’u Cynllun Cydraddoldeb Anabledd. Gall hyn fod yn rhan o gynllun gweithredu.
- Fel rhan o’r broses casglu tystiolaeth, fel y nodir yng Nghodau Ymarfer y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, dylai awdurdodau cyhoeddus fonitro defnydd o fformatau amgen a, lle mae’r defnydd yn isel, gyflwyno mesurau i sicrhau bod pobl anabl yn ymwybodol o argaeledd gwybodaeth hygyrch.
- Dylai awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod ganddynt y strwythurau a chyllidebau angenrheidiol yn eu lle i reoli hyrwyddo fformatau hygyrch a’u gweithredu.

Cynulliad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Sicrhau bod hawliau siaradwyr Cymraeg â nam ar eu golwg yn cael eu diogelu mewn unrhyw ddeddfwriaeth i ddiogelu’r iaith Gymraeg.
- Cynnwys darparu gwybodaeth hygyrch yn yr iaith Gymraeg yng nghylch gwaith y ‘ Comisiynydd Iaith’ newydd.

J0628 rnib_ATIC_welsh.qxd:Layout 3 28/2/08 09:37 Page 20

- Cymryd sylw o hawliau pobl â nam ar eu golwg wrth gynllunio sut i gyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru.

Cyrff ariannu cyhoeddus

- Dylai cyrff ariannu cyhoeddus gynnwys yn eu gwerthusiad y defnydd o fformatau hygyrch fel dangosydd allweddol o lwyddiant prosiect.

- Dylai cyrff ariannu cyhoeddus ofyn i bob sefydliad ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd mewn perthynas â darparu gwybodaeth hygyrch. Bydd angen i dystiolaeth gynnwys canlyniadau, dyraniad cyllideb ac nid argaeledd polisi papur yn unig gan na fyddai hyn ynddo ei hun yn dangos cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Cyrff archwilio

- Dylai cyrff archwilio ofyn i awdurdodau cyhoeddus ddangos cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd mewn perthynas â darparu gwybodaeth hygyrch. Bydd angen i dystiolaeth gynnwys canlyniadau, ac nid argaeledd polisi papur yn unig gan na fyddai hyn ynddo ei hun yn dangos cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.